

“Os yw’n bosibl! Y mae popeth yn bosibl i’r sawl sydd â ffydd ganddo.”

(Marc 9:23)

Dyma hanes yr Arglwydd Iesu yn delio â sefyllfa anodd iawn ar ôl iddo ddod lawr o fynydd y Gweddnewidiad. Mae’r hanesyn hwn yn her i ni heddiw ynglŷn â’n ffydd yng ngallu Duw.

Amgylchiadau truenus

Roedd Iesu a thri disgybl wedi bod ar ben y mynydd ac wedi cael profiadau mawr. Wrth ddod i lawr o’r mynydd, fodd bynnag, mae sefyllfa ryfedd yn eu disgwyl. Mae tyrfa o bobl wedi ymgasglu, yn cynnwys Iddewon chwilfrydig, ysgrifenyddion, naw o ddisgyblion Iesu, tad oedd mewn gofid sylweddol, a’i fab oedd yn dioddef o gyflwr erchyll.

Mae’r tad yn disgrifio cyflwr truenus ei fab: mae’n fud a byddar, mae’n dioddef o ryw fath o epilepsi drwg iawn (‘grand mal’ mae’n siŵr,) gan ei fod yn cael ei daflu i’r llawr, yn malu ewyn, yn ysgyrnygu dannedd ac yn mynd yn llonydd. Mae’n debyg iawn i ffit epileptig. Ond ar ben hynny hefyd, mae wedi ei feddiannu gan ysbryd aflan, gan ei fod wedi cael ei daflu i dân a dŵr droeon.

Cawn gipolwg ar natur gwaith y diafol. Nid yn unig roedd y bachgen yn cael ffitiau ar lawr, ond roedd yr ysbryd yma yn ei daflu i ganol sefyllfa oedd yn peryglu ei fywyd. Nod y diafol yw lladd a dinistrio. Yn loan 8.44 mae’r Arglwydd yn dweud : **“Llofrudd oedd ef o’r cychwyn”**, ac yn loan 10.10 mae’n ei ddisgrifio fel lleidr sy’n dod **“i ladrata ac i ladd ac i ddinistrio”**.

Aflwyddiant

Mae’r tad wedi dod â’i fab at Iesu, ond, gan ei fod ar ben y mynydd, mae’r naw disgybl wedi ceisio bwrw allan yr ysbryd aflan. Mae’r Arglwydd yn ymateb i’r wybodaeth yma trwy gyhuddo pawb, ‘y genhedlaeth’, o fod yn ddi-ffydd:

Y dyrfa

Fel arfer, mae gan y dyrfa fwy o ddiddordeb ynddi ei hunan nag yn neb arall. Mae’n ceisio arwyddion yn fwy nag athrawiaeth, mae’n ceisio bara beunyddiol yn fwy na bwyd i’r enaid (loan 6.22-33).

Yr ysgrifenyddion

Mae’n bur debyg nad oedd yr ysgrifenyddion yn dangos unrhyw dosturi, ond yn llawenhau o weld disgyblion Crist yn methu.

Y tad

Mae geiriau'r tad yn nes ymlaen yn dangos ei ddiffyg ffydd. Doedd e ddim yn siŵr o allu Crist, a gallu Duw, i iacháu cyflwr echrydus ei fab. Mae'r 'os' yn dangos ei amheuaeth yn glir iawn, ac mae Iesu yn ei weld fel rhwystr.

Y disgyblion

Yn olaf, mae naw disgybl oedd wedi bod gyda'r tri arall yn cyflawni gwyrthiau o'r blaen, ac yn cael trafferth y tro hwn. Oedd presenoldeb y dyrfa a'r ysgrifenyddion wedi amharu ar eu ffydd? Oedden nhw'n hyderus oherwydd y llwyddiant blaenorol, heb bwysu'n llwyr ar Dduw y tro hwn? Mae'r Arglwydd yn dweud bod diffyg gweddi yn rhan o'r broblem (29).

Onid yw hyn yn her i ni heddiw hefyd? Faint mor euog ydym ni o rwystro gwaith Duw trwy ddiffyg ffydd? Ydym ni'n ansicr ein gweddiâu oherwydd ein bod yn amau gallu Duw i iacháu, i achub enaid, i ddod â diwygiad i Gymru? Gallem restru enghreifftiau eraill hefyd. Dywed Iago nad yw gweddi'r sawl sy'n ansicr o allu Duw o unrhyw werth: **"Nid yw hwnnw – ac yntau rhwng dau feddwl, yn ansicr yn ei holl ffyrdd – i dybio y caiff ddim gan yr Arglwydd"** (Iago 1:7-8).

Amynedd ac awdurdod

Er fod yr Arglwydd yn edliw i'w genhedlaeth ei ddiffyg ffydd, ac yn gofyn am ba hyd bydd raid eu goddef eto, mae'n dangos amynedd mawr a thosturi at y bachgen mud a byddar sydd wedi ei feddiannu. Er anobaith ac ansicrwydd y tad, mae Iesu yn ei sicrhau fod popeth yn bosib trwy ffydd yng ngallu Duw. Felly, dyw hi ddim yn rhy hwyr.

Yna mae'n galw arnynt i ddod â'r bachgen ato ef. Dyma wahoddiad a chymhelliad hyfryd. Dyma oleuni yng nghanol tywyllwch dudew sefyllfa druenus y teulu hwn. Wrth i'r Arglwydd Iesu gymryd yr awenau mae rhywbeth mawr yn digwydd. Mae'n gallu gorchymyn i'r ysbryd adael y bachgen. Mae'r ysbryd yn creu un cynnwrf arall ac yna'n ufuddhau i'r Arglwydd Iesu.

Doedd yr ysbryd aflan ddim yn fodlon mynd heb frwydr. Doedd e ddim yn fodlon gadael heb awdurdod nefol. Er y byddai'r disgyblion wedi gallu cael yr awdurdod hwnnw, roedd eu ddiffyg ffydd wedi eu hamddifadu ohono.

O am i ni brofi'r awdurdod yma yn ein pregethu a'n tystio a'n gweddi, o am i ni heddiw brofi'

*'cael y ffydd nad yw yn methu
agor euraid byrth y nef.'* (R.S.Rogers)